Skills INSIGHT
Summit SKILLS
Y Cyngor Sgiliau Sector
ar gyfer Peirianneg Gwasanaethau Adeiladau
RHIFYN 17 : HAF 2010

Sefydliad cyflwyno FfCCh

Mae SummitSkills wedi'i gymeradwyo fel sefydliad cyflwyno ar gyfer unedau a strwythurau cymwysterau i'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (FfCCh), diwygiad y llywodraeth o gymwysterau galwedigaethol i Loegr, Gogledd Iwerddon a Chymru a gynlluniwyd i roi mwy o ddewis a hyblygrwydd i ddysgwyr a chyflogwyr.

Ar 17 Mehefin, cymeradwyodd y cyrff rheoleiddio ein statws cyflwyno, gan roi cyfrifoldeb i ni dros sicrhau bod yr unedau a'r strwythurau cymwysterau yr ydym yn eu datblygu ar gyfer y sector yn addas at y diben, ac yn adlewyrchu deddfwriaeth berthnasol, datblygiad technolegol a Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol. Byddwn hefyd yn pennu'r egwyddorion asesu ac yn cymeradwyo pecynnau cymwysterau a gynhyrchir gan sefydliadau dyfarnu.

Rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau fod y cymwysterau newydd sy'n cael eu diwygio o dan y FfCCh yn parhau i adlewyrchu anghenion sgiliau diwydiannau, cyflogwyr ac unigolion y sector, yn ogystal â'r darnau gorau o'r cymwysterau galwedigaethol presennol i ddysgwyr.

Mae llawer o waith i'w wneud ac rydym wedi gweld oedi mewn perthynas â rhannau o'r broses fu y tu allan i'n rheolaeth. Roedd SummitSkills yn ymwybodol bod angen cael eglurhad ynghylch y sefyllfa ariannu yn gyflym, gyda mis Medi ar y gweill a'r rhwydwaith darparwyr hyfforddiant yn dymuno cynnig cyrsiau. Trafodasom ein pryderon gyda'r Asiantaeth Ariannu Sgiliau a'r Asiantaeth Dysgu Pobl Ifanc, ac mae'r ddwy bellach wedi ymestyn yr arian ar gyfer cymwysterau FfCC presennol hyd at 31 Rhagfyr 2010 ar gyfer dechreuwyr newydd. Wrth i gymwysterau FfCCh ddod ar gael, anogir darparwyr i gofrestru dechreuwyr newydd ar y cymwysterau hyn.

Galluogodd ymchwil yn deillio o'n Cytundeb Sgiliau Sector i ni gynhyrchu ein Strategaeth Cymwysterau'r Sector ym mis Ebrill 2008. Mae hyn yn cynnwys manylion ein gweledigaeth ar gyfer cymwysterau dros y 10 mlynedd nesaf, i wella'r lefelau cymhwysedd yn ein sector a sicrhau hyder cleientiaid, cwsmeriaid a defnyddwyr yng ngalluoedd technegol gweithlu'r sector. Mae SummitSkills yn ystyried y FfCCh fel cyfrwng ar gyfer cymhwyso cymhwysedd ar gyfer y dyfodol mewn peirianneg gwasanaethau adeiladau.

Mae'r cymwysterau y mae SummitSkills wedi'u datblygu ar gyfer y diwydiannau tymheru, electrodechnegol, gwresogi ac awyru, plymo a rheweiddiad i'w cynnwys yn y FfCCh yn seiliedig ar gymwyseddau. Mae hyn yn golygu eu bod yn adlewyrchu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar weithredwyr i gaffael a dangos cymhwysedd galwedigaethol perthnasol i'w rolau swyddi a'u cyfrifoldebau. Rydym wedi gweithio'n agos â chyrff ardystio a chofrestru yn y sector, ac rydym yn parhau i wneud hynny i sicrhau bod y cymwysterau yn gweddu i'w gofynion.

I gael gwybod mwy am gymwysterau galwedigaethol, ewch i'n gwefan yn www.summitskills.org.uk/VQR neu ebostiwch reolwr datblygu SummitSkills Trevor Hill: trevor.hill@summitskills.org.uk

yn y rhifyn hwn...

Academi Sgiliau Genedlaethol Newydd
Ar flaen y gad o ran sgiliau technoleg amgylcheddol y sector.

Tommy Walsh yn gwirio'r gystadleuaeth
Ymweliad gan seren enwog yn taro tant gyda chystadleuwyr.

Gogledd Iwerddon
Yn allweddol i hyfforddiant prentisiaid.

Yr Alban
Amlinellu cynlluniau ar gyfer cymwysterau meicrogynhyrchu.

Cymru
Twf Sgiliau i adfywio'r economi.

Proffil Cyflogwr
Mark Clemson yn trafod datblygu sgiliau a thechnolegau'r dyfodol.

Lansiad blaengar yn Llundain
Cyfleuster newydd CEREB yn cael sylw Boris.

Y diweddaraf ar ddigwyddiadau gwyrdd
Darllenwch am weithgareddau SummitSkills ledled y DU.

Carbon Isel Sgiliau Uchel
Buddsoddiad gwerth miliynau o bunnoedd i'r De Orllewin

O gwmpas y Bwrdd
Pobl newydd ffres a golwg newydd ffres!

Alliance Sector Skills Councils

Y safbwynt o'r man hwn

Barn prif weithredwr SummitSkills Keith Marshall OBE ar y newyddion sy'n effeithio ar beirianneg gwasanaethau adeiladau:

Cafwyd llawer o newidiadau pwysig ers y rhifyn diwethaf o Skills Insight, a'r mwyaf amlwg wrth gwrs, fu'r etholiad. Gwnaethom ddatblygu perthynas waith dda gyda sawl aelod o'r Llywodraeth glymblaid pan oeddent yn wrthbleidiau ac rydym yn falch eu bod wedi cadw'r un cyfrifoldebau yn y Llywodraeth. Rydym yn edrych ymlaen at adeiladu ar y rhain a hefyd gydag aelodau eraill y weinyddiaeth newydd.

Mae arwyddion cynnar gan y llywodraeth yn awgrymu eu bod yn parhau i gefnogi'r ymagwedd sectoraidd at sgiliau. Gan weithio gyda chyd CSSau rydym yn gwneud cynigion i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch sut y gallwn gyfrannu at wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y maes sgiliau. Gan gydnabod yr angen i 'wneud mwy gyda llai', rydym yn disgwyl goblygiadau'r adolygiad gwario yn yr hydref.

Roedd ein rhifyn diwethaf yn cynnwys darn pwysig ar gyflwyno'r FfCCh. Mae hwn yn brosiect mawr, cymhleth sy'n gweithio i derfynau amser tynn. Lleisiwyd pryderon, fodd bynnag, ynghylch cyflymdra'r gweithredu nid yn unig yn ein sector ond ar draws sectorau eraill hefyd. Un o brif bryderon SummitSkills yw sicrhau bod cymwysterau priodol y gellir eu hariannu ar gael i'r sector. O ganlyniad i nifer o amgylchiadau, llawer ohonynt y tu hwnt i'n rheolaeth, daeth yn glir yn ystod mis Mehefin nad oeddem yn gallu bod yn sicr y byddai'r cymwysterau FfCCh ar gael ar gyfer mis Medi. Cytunasom gyda'r Asiantaeth Ariannu Sgiliau y dylid ymestyn ariannu ar gyfer y cymwysterau presennol gan sicrhau felly parhad mewn cymwysterau a ariannir.

Rydym yn parhau i weithio ar weithredu'r FfCCh gyda'r manteision fel a ddisgrifiwyd y tro diwethaf, a byddwn yn annog symud i'r cymwysterau newydd cyn gynted â phosib.

Y newid mwyaf cyffrous fwy na thebyg fu derbyn ein Mynegiant o Ddiddordeb mewn datblygu Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Technolegau Amgylcheddol. Mae'r cam cynllunio busnes ar waith ers tro ac rydym yn gobeithio y bydd yr academi'n weithredol erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hwn yn ddatblygiad pwysig i ni ac, yn bwysicach, i'r sector.

Mae'r ymdrech i gyflawni'r targedau lleihau carbon ac economi carbon isel yn dibynnu ar sector peirianneg gwasanaethau adeiladau medrus, llwyddiannus ac effeithlon. Mae hyn wrth wraidd gweithgareddau SummitSkills ac mae'r academi yn elfen allweddol o'r bwriad strategol hwnnw.

Sgwrs deimladwy Tommy

Daeth seren i blith y cystadlaethau sgiliau yn rhagrasys y De Ddwyrain yn ddiweddar, pan dreuliodd y cyflwynydd teledu Tommy Walsh sawl awr yn edrych o gwmpas yno. Cynhaliwyd SkillELECTRIC a SkillPLUMB dros ddeuddydd ar y cyd â SkillBuild, gan ddefnyddio'r cyfleusterau ardderchog a ddarparwyd gan Goleg Barking a Dagenham.

Dywedodd Neil Collishaw, pennaeth cystadlaethau sgiliau yn SummitSkills: " Bu Tommy yn ein diddanu gyda straeon am ei daith anodd ef i lwyddiant, ac roedd ei eiriau anogol wedi taro tant gyda chystadleuwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd."

Tri ar y cyd

Cyflawnwyd tri ar y cyd pan gynhaliwyd SkillELECTRIC, SkillPLUMB a SkillFRIDGE ar y cyd dros ddigwyddiad deuddydd cyffrous, a ategwyd gan gyfleusterau gwych a lletygarwch Coleg Stephenson Coalville. Roedd y digwyddiad trydanol yn fwy cyffrous fyth pan ddaeth y beirniad gwadd Matt Derbyshire (yn y llun ar y chwith isod) atom, sef enillydd Canolbarth Lloegr y llynedd a gyrhaeddodd rownd derfynol y DU, a helpodd ni i brofi a threialu'r prosiect ymarferol eleni. Mewn cyfres arall o ragrasys llwyddiannus aeth y timau i Goleg Adeiladu Leeds, a fu'n cynnal rhagrasys SkillELECTRIC, SkillPLUMB a SkillPIPE Gogledd Lloegr, eto ochr yn ochr â SkillBuild.

Menywod y Byd

Mae rhai o'n cystadleuwyr llwyddiannus o 2009 yn cael eu hadolygu ar gyfer y posibilrwydd o'u dewis ar gyfer WorldSkills 2011. Un o'r rhain yw Sabrina Thomas (llun isod), a enillodd ragras SkillELECTRIC De Lloegr 2009 ac a wnaeth yn dda iawn yn rownd derfynol y DU. Mae menywod fel Sabrina yn ysbrydoliaeth i eraill sydd am ymuno â galwedigaeth a ystyrir yn aml y mae i ddynion yn unig. Dilynodd Chelsey White ôl-troed Sabrina yn agos, gan gystadlu yn nigwyddiad SkillPLUMB Canolbarth Lloegr 2010, gan golli allan o drwch blewyn ar le yn y rownd derfynol ar ôl perfformiad gwych.

Bydd holl enillwyr rhanbarthol Lloegr yn ymuno â'u cyfoedion o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn rowndiau terfynol y DU eleni. Cyhoeddir y canlyniadau a lluniau ar wefan Skill M&E:www.skillMandE.org.uk

Canolfan werdd Glannau Mersi

Mae canolfan hyfforddiant gyntaf Glannau Mersi ar gyfer technolegau amgylcheddol ar fin agor mewn cam sy'n sicr o gyfrannu at drawsnewid hyfforddiant a sgiliau'r rhanbarth mewn ynni adnewyddadwy.

Mae'r Ganolfan Hyfforddiant Ynni Gwyrdd (GETC) yn ganlyniad partneriaeth rhwng yr Asiantaeth Ariannu Sgiliau, Stiebel Eltron, gweithgynhyrchydd cynnyrch ynni adnewyddadwy, a Scientiam, darparwr hyfforddiant yn Birkenhead sydd wedi addo cefnogaeth ar gyfer Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Technoleg Amgylcheddol SummitSkills.

Bydd y ganolfan newydd ar y Wirral yn cynnig y safonau hyfforddiant uchaf ar y cyfarpar diweddaraf, gan helpu gosodwyr i ennill ardystiad i'r Cynllun Ardystio Meicrogynhyrchu (MCS). Dim ond perchnogion eiddo sy'n defnyddio gosodwyr achrededig MCS fydd yn gymwys ar gyfer grantiau'r Llywodraeth tuag at gostau prynu a gosod systemau ynni effeithlon, yn ogystal â chymhellion ariannu arfaethedig eraill.

Mae SummitSkills yn croesawu'r GETC newydd ac yn gobeithio y bydd yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygu sgiliau meicrogynhyrchu ac adnewyddadwy'r sector yng Ngogledd Orllewin Lloegr.

Am fwy o wybodaeth am waith SummitSkills yn y rhanbarth, ebostiwch eich rheolwr gweithrediadau Rob Wellman:
rob.wellman@summitskills.org.uk

De Orllewin

Carbon Isel, Sgiliau Uchel

Mae busnesau carbon isel yn Ne Orllewin Lloegr ar fin elwa o fenter gwerth miliynau o bunnoedd i ddatblygu sgiliau lefel uwch wrth newid i economi amgylcheddol gyfeillgar. Mae SummitSkills yn gweithio ar y prosiect Carbon Isel Sgiliau Uchel a ariannir gan Awdurdod Datblygu Rhanbarthol y De Orllewin ac a gydlynir gan Universities South West.

Dynodwyd y rhanbarth yn Ardal Economaidd Carbon Isel, gyda ffocws ar ynni morol. Nod y prosiect yw cyflenwi 250 o leoedd hyfforddi i raddedigion a ariannir yn rhannol i fusnesau carbon isel mewn ynni morol, meicrogynhyrchu nad yw'n forol, niwcliar dinesig ac adeiladu cynaliadwy.

Bydd SummitSkills yn helpu i nodi anghenion hyfforddiant a mynd i'r afael â datrysiadau at y diben i'r sector, mewn partneriaeth â RegenSW, Gwasanaeth Ymgynghori Gweithgynhyrchu'r De Orllewin, E&U Skills, y Sefydliad Colegau a phartneriaid sgiliau rhanbarthol cysylltiedig eraill.

Mae colegau addysg bellach sydd wedi ymwneud â'n GrŴp Gweithredu Cytundeb Sgiliau Sector y De Orllewin wedi cael eu hargymell ar gyfer rolau penodol ac mae gweithdy tri diwrnod yn cael ei gynnal ym mis Gorffennaf 2010.

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch ein cynrychiolydd Barnaby Elphick ar 07827 019133 neu ebostiwch:
be.3bconsultancy@btinternet.com

Mark Clemson,
Cyfarwyddwr, New World Solar Installation

Proffil cyflogwr

Ers ei lansio yn 2006, mae New World Solar Installations wedi cynnal dros 850 o osodiadau ynni adnewyddadwy i gleientiaid cyhoeddus a phreifat ledled y DU.

Sut ydych chi'n cymryd rhan yng ngwaith SummitSkills?
Cwrddais â rheolwr gweithrediadau SummitSkills Kevin Dowd mewn seminar sgiliau amgylcheddol a drefnwyd gan Arsyllfa Ranbarthol Gorllewin Canolbarth Lloegr. Cefais wahoddiad gan Kevin i siarad â GrŴp Gweithredu Gorllewin Canolbarth Lloegr er mwyn i mi allu rhannu ein profiadau fel cyflogwr yn y sector ynni adnewyddadwy.

Pam ei fod yn bwysig i chi eich bod y cyfrannu?
Rwy'n credu ei fod yn hanfodol i hyfforddwyr a darparwyr sgiliau ddeall gofynion cyflogwyr y sector.

Sut mae eich cwmni yn cymryd rhan mewn hyfforddiant?
Mae gan ein cwmni hanes o weithio gyda cheiswyr swyddi difreintiedig a gweithio'n agos gyda mentrau cymdeithasol nad er elw. Mae hefyd yn bwysig i bobl gael eu hyfforddi'n llawn i gyflwyno ein hathroniaeth gorau yn y maes.

Pam ei fod yn bwysig i gyflogwyr recriwtio a hyfforddi?
Er mwyn i ni symud tuag at economi carbon isel, mae'n hanfodol fod gennym y sgiliau angenrheidiol ar gael i osod y technolegau fydd yn cynyddu ein diogelwch tanwydd a lleihau ein hallyriadau carbon. Efallai wedyn gallwn adael etifeddiaeth deg i'r cenedlaethau fydd yn ein dilyn.

Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Technolegau Amgylcheddol

Bydd cyflogwyr yn y sector peirianneg gwasanaethau adeiladau yn Lloegr yn elwa o Academi Sgiliau Genedlaethol newydd fydd yn cydlynu hyfforddiant sgiliau mewn dylunio, gosod a chynnal a chadw technolegau amgylcheddol.

Bydd yr Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Technolegau Amgylcheddol yn chwarae rôl allweddol wrth drawsnewid gallu busnesau yn y sector i gyrchu'r hyfforddiant a'r sgiliau sydd eu hangen i gwrdd â'r galw i osod technolegau adnewyddadwy ac amgylcheddol yn y DU.

Dywedodd Keith Marshall, prif weithredwr SummitSkills: "Mae creu Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Technolegau Amgylcheddol yn gam hollbwysig ymlaen i beirianneg gwasanaethau adeiladau.

"Mae swyddi a chyflogaeth yn y sector yn y dyfodol yn dibynnu ar fusnesau a chyflogwyr yn datblygu'r sgiliau i ymdrin â'r dasg o osod y technolegau amgylcheddol fydd yn gyffredin wrth i'r DU gwrdd â'i hymrwymiadau i'r agenda carbon isel.

"Bydd yr academi newydd yn chwarae rôl allweddol wrth sicrhau bod y gallu sgiliau hwn yn cael ei ddatblygu ac y gall peirianneg gwasanaethau adeiladau hyrwyddo'r agenda gwyrdd yn rhagweithiol i ddefnyddwyr a bod ar flaen y gad o ran sgiliau technoleg amgylcheddol."

Mae'r Academi Sgiliau Genedlaethol ar y cam cynllunio busnes ar hyn o bryd, a'r bwriad yw ei lansio erbyn diwedd 2010.

Gogledd Iwerddon

Cyflogwyr yn allweddol i brentisiaethau

Mae SummitSkills wedi bod yn siarad â chyflogwyr peirianneg gwasanaethau adeiladau Gogledd Iwerddon er mwyn deall y materion sgiliau y maent yn eu hwynebu. Cafwyd, er gwaetha'r trafferthion economaidd diweddar, eu bod yn parhau'n gwbl ymrwymedig i hyfforddi prentisiaid, drwy Apprenticeships NI.

Yma, mae oddeutu 13,000 o bobl yn gweithio mewn 3,600 o fusnesau'r sector. Mae'r cyflogwyr hyn yn arwain y ffordd ar hyfforddiant o ansawdd drwy brentisiaethau. Croesawyd ganddynt adolygiad Pwyllgor Cyflogaeth a Dysgu 2009 o brentisiaethau yng Ngogledd Iwerddon oedd yn argymell y dylai cyflogwyr sbarduno sut y mae prentisiaethau yn esblygu.

Dywedodd Derek Poole, CHC Ltd: "Mae'r dull prentisiaid wedi'u cyflogi o hyfforddi yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i'n prentisiaid i wneud y gwaith yn well, fydd yn ein galluogi i gael y gweithlu sydd ei angen arnom nawr ac yn y dyfodol."

Amlygodd adroddiad cost a budd prentisiaethau SummitSkills a gyhoeddwyd y llynedd fod y defnydd effeithiol o brentisiaid yn gallu arwain at arbedion sylweddol mewn costau llafur.

Dywedodd Lewis Darragh, Darson Services: "Rydym yn cyflogi prentisiaid fel rhan hanfodol o'n busnes ac mae'r prentisiaid cyflogedig yn llawn cymhelliant ac yn gweithio'n effeithiol ac yn effeithlon i'n busnes."

Er bod recriwtio a chadw prentisiaid cyflogedig wedi cael ei effeithio gan y dirwasgiad, mae cyflogwyr y sector yn argyhoeddedig o hyd mai dyma'r ffordd orau i ddatblygu cyflogeion medrus iawn, brwdfrydig ac ymrwymedig ar gyfer y dyfodol.

Lansiad arloesol

Prifygol South Bank Llundain yw'r lleoliad pwysig ar gyfer cyfleuster newydd arloesol, y Ganolfan er Ynni Effeithlon ac Adnewyddadwy mewn Adeiladau (CEREB). Cafodd ei lansio mewn digwyddiad arbennig ym mis Mehefin a fynychwyd gan Keith Marshall OBE, prif weithredwr SummitSkills a Maer Llundain, Boris Johnson (yn y llun).

Wedi'i lleoli ar lefel y to yn adeilad dysgu newydd sbon K2, mae CEREB ar flaen y gad o ran dylunio adeiladau carbon isel. Sefydlwyd y prosiect gwerth miliynau o bunnoedd mewn partneriaeth â Phrifysgolion City a Kingston i astudio a dangos technolegau carbon isel yn yr amgylchedd adeiledig. Ariannir y cyfleuster newydd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr, Asiantaeth Datblygu Llundain a'r partneriaid diwydiannol M&E Sustainability.

Mae'r ganolfan yn darparu amgylchedd dysgu cyffrous ar gyfer datblygu adnewyddadwy a chynaliadwy. Dyma'r gyntaf o'i bath i gael eu lleoli mewn dinas gyda lle penodedig ar gyfer ymchwil a datblygu technolegau amgylcheddol mewn adeiladau dinesig.

I gael gwybod mwy ewch i wefan CEREB yn www.cereb.org.uk neu ebostiwch rheolwr gweithrediadau SummitSkills Vince Glover: vince.glover@summitskills.org.uk

Digwyddiadau gwyrdd

Ble ydym wedi bod?
- Ecobuild, Earls Court, 2–4 Ebrill
- Nemex yn Sustainability Live! Canolfan Arddangos Genedlaethol, Birmingham 20–22 Ebrill
- Greenbuild Expo, Canol Manceinion, 26 & 27 Mai

Pam oedden ni yno?
Mae SummitSkills yn arwain datblygu hyfforddiant a sgiliau'r sector ar gyfer technolegau amgylcheddol. Gyda chyflwyno mesurau lleihau carbon y Llywodraeth fel Tariffau Bwydo i Mewn, a chystadleuaeth gref gan gwmnïau Ewropeaidd, rydym yn hybu cyfleoedd i fusnesau'r sector sy'n dymuno uwchsgilio eu gweithlu.

Beth wnaethon ni?
Rhoddon ni gyngor ymarferol i ymwelwyr ar ehangu potensial busnes a phontio bylchau sgiliau. Roedd ein seminarau sgiliau yn boblogaidd iawn a chymerom ran ar y panel arbenigwyr i drafod cyfleoedd y sector.

Cyflwynasom yr Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Technolegau Amgylcheddol a siarad am gymorth ariannol, y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a gwybodaeth y farchnad lafur.

Beth sydd nesaf?
Byddwn yn dilyn i fyny gyda'r cysylltiadau yr ydym wedi'u gwneud yn y sioeau, a rhoi'r newyddion diweddaraf i bawb am y newyddion a'r farn amgylcheddol gyfredol o'r sector, yn ogystal â'r hyn sy'n digwydd gyda'r Academi Sgiliau Genedlaethol a datblygu cymwysterau newydd.

Yr Alban

Hybu cymwysterau meicrogynhyrchu

Rhoddodd Ian Stirrat, rheolwr gweithrediadau SummitSkills ar gyfer yr Alban, gyflwyniad yng nghynhadledd Ffederasiwn Cyflogwyr yr Alban a Gogledd Iwerddon (SNIPEF) eleni i amlinellu strategaeth ddatblygu SummitSkills ar gyfer ystod o gymwysterau a hyfforddiant systemau meicrogynhyrchu.

Mae'r cyntaf o'r rhain, y Dystysgrif mewn Systemau Technoleg Amgylcheddol, yn cynnwys gwresogi dŵr solar, pympiau gwres awyr a daear, yn ogystal â ffotofolteddau solar.

Bydd y cymhwyster, fydd ar gael o fis Gorffennaf 2010, yn cael ei ddyfarnu ar y cyd rhwng Awdurdod Cymwysterau'r Alban a chonsortiwm y diwydiant SNIPEF; cymdeithas fasnach yr Alban ar gyfer y diwydiant trydaol SELECT; a'r Gymdeithas Contractwyr Gwresogi ac Awyru.

Mae unedau pellach seiliedig ar gymhwysedd yn cael eu datblygu. Bydd y rhain yn cwmpasu biomas, cynaeafu ac ailgylchu dŵr, Gwres a PhŴer meicro cyfun, gwynt meicro/bach a meicro hydro. Mae unedau dylunio lefel uchel ategol hefyd yn cael eu datblygu i sicrhau cwmpasu cynhwysfawr mewn perthynas â thechnolegau meicrogynhyrchu.

Mae SummitSkills yn annog cyflogwyr peirianneg gwasanaethau adeiladau i ddod yn Osodwyr Achrededig i sicrhau manteision busnes y meysydd gwaith hyn sy'n ehangu.

I gael mwy o wybodaeth am y cymwysterau hyn, ffoniwch Ian Stirrat yn SummitSkills ar 0131 526 3151 neu ebostiwch ian.stirrat@summitskills.org.uk

Cymru

Sgiliau Twf Cymru

Mae SummitSkills yn annog cwmnïau Cymreig yr effeithiwyd arnynt gan y dirwasgiad i ddarganfod mwy am arian arbennig i hybu sgiliau technoleg carbon isel a helpu adfywio'r economi.

Crëwyd Sgiliau Twf Cymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i helpu busnesau yng Nghymru i dyfu eu trosiant, elw a/neu gyflogaeth. Gall dalu swm cyfartalog o £3,000 y person am hyfforddiant lefel uwch a thechnoleg carbon isel newydd. Mae hyn yn adeiladu ar lwyddiant ProAct, cynllun a estynnwyd i gynnwys peirianneg gwasanaethau adeiladau i ddarparu cymorth ariannol i gyflogwyr y sector yn ystod y dirwasgiad.

I wneud cais am yr arian gan Sgiliau Twf Cymru, mae angen i fusnesau sy'n tyfu ddangos sut y bydd yn eu helpu i ehangu, neu sut byddai'r hyfforddiant ychwanegol yn caniatáu iddynt elwa ar gyfle sylweddol i dyfu.

Os hoffech gael gwybod os yw'ch busnes yn gymwys cysylltwch â llinell ffôn Busnes a Sgiliau ar 0845 6066160. Gall ddarparu cyngor hyfforddiant a chefnogaeth benodol, yn ogystal ag arweiniad ar ffynonellau eraill o gymorth gan y llywodraeth.

I gael gwybod mwy am waith SummitSkills yng Nghymru, ebostiwch ein rheolwr gweithrediadau Kathryn Hopkins-Morgan: kathryn.morgan@summitskills.org.uk

Ffocws ar AU

Mae SummitSkills yn trefnu digwyddiad peirianneg gwasanaethau adeiladau yn Llundain yr hydref hwn sy'n canolbwyntio ar Addysg Uwch. Bydd y diwrnod yn cynnwys lansio cynllun ar gyfer cymeradwyo graddau Sylfaen y sector sydd wedi'u datblygu yn unol â'n manyleb fframwaith gradd Sylfaen.

Bydd y digwyddiad bywiog hwn yn cyfuno cyflwyniadau a gweithdai ar bynciau yn cynnwys ariannu a Phrentisiaethau Uwch arfaethedig, yn ogystal â datblygu sgiliau ar gyfer technolegau amgylcheddol.

Gwahoddir cynadleddwyr o ar draws sector Addysg Uwch y DU ac mae lleoedd am ddim felly argymhellir cofrestru'n gynnar.

Bydd manylion llawn a gwybodaeth archebu yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan cyn gynted ag y byddant yn cael eu cadarnhau ond yn y cyfamser, i gofrestru diddordeb, ebostiwch rheolwr datblygu SummitSkills Catherine Elliott yn catherine.elliott@summitskills.org.uk

Aelodau Newydd y Bwrdd

Rydym yn falch croesawu pedwar aelod newydd i fwrdd SummitSkills:

Patrick Allen
cyfarwyddwr Abel Alarms ac is-gadeirydd y Gymdeithas Tân a Diogelwch

Richard Clarke
Swyddog Prentisiaethau Cenedlaethol, Unite the Union

John Miller
rheolwr gyfarwyddwr JH Shouksmiths, peirianwyr gwasanaethau adeiladau

George Thomson
sefydlodd The Shower Doctor yn 1993 i ganolbwyntio ar atgyweirio cawodydd yn ardal Caeredin

Mae manylion holl aelodau'n bwrdd ar gael ar ein gwefan yn www.summitskills.org.uk/board

Mae Skills Insight yn newid...

Rydym yn lansio golwg ac arddull newydd sbon gyda'n rhifyn mis Tachwedd. Yn ffres and ac yn flaengar, bydd yn dal i fod yn llawn o'r newyddion a'r farn ddiweddaraf ar beirianneg gwasanaethau adeiladau, felly cadwch lygad allan am eich copi!

Penodiadau Newydd

Nigel Hollett – Head of Environmental Technologies

Mae Nigel wedi gweithio ym maes datblygu cynaliadwy ers sawl blwyddyn yn y sector cyhoeddus a phreifat. Mae'n ymuno â SummitSkills o The Utility Partnership lle roedd yn Rheolwr Rhanbarthol yn ymwneud ag arfarniadau cynaliadwyedd ac asesiadau ynni adnewyddadwy.

Michael O'Brien – London Employer Engagement Manager

Yn dilyn gyrfa helaeth 20 mlynedd yn ochr eilaidd y diwydiant olew, mae Michael hefyd yn cyfrannu profiad cyfoethog a enillwyd yn ystod y 15 mlynedd diwethaf fel rheolwr contractau yn y diwydiant adeiladu. Bydd yn gweithio'n agos gyda thîm Llundain SummitSkills ar amryw brosiectau i mewn ac o gwmpas y brif ddinas.

Geraldine Craven – Development Manager

Mae Geraldine wedi gweithio i Gynghorau Sgiliau Sector (CSSau) ers wyth mlynedd (a chyn hynny pan oeddent yn Sefydliadau Hyfforddi Cenedlaethol). Fel aelod allweddol y tîm datblygu, bydd yn gweithio ar amrywiaeth o brosiectau yn cynnwys y Safon Ansawdd Hyfforddiant.

Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Technolegau Amgylcheddol

Bydd **Sheila Hoile** a **Michael Kilgour** yn gweithredu fel ymgynghorwyr yn ystod datblygu'r cynllun busnes ar gyfer yr academi newydd.

Mae'r ymgynghorydd blaen **Sheila** yn Athro Ymweld yn Ysgol yr Amgylchedd Adeiledig, Prifysgol Salford. Cyn hynny roedd yn Gyfarwyddwr Addysg a Strategaeth yn CITB-Constructionskills, ac mae ganddi Radd Meistr mewn Addysg a Diwydiant.

Bydd **Michael** yn darparu cefnogaeth ymgynghorol ac mae'n cynnig profiad cyfoethog i'w rôl, gan ei fod eisoes wedi datblygu cynlluniau busnes i Academïau Sgiliau Cenedlaethol. Fel cyfarwyddwr Kilgour Consulting Ltd, mae wedi gweithio gyda'r pump uchaf o blith sefydliadau cleientiaid byd-eang o fewn sectorau'r prifysgolion, ymgynghoriaethau rheoli, asiantaethau pensiynau a'r lluoedd arfog.

Cymryd rhan!

Rydym am glywed gennych – os ydych yn fusnes mewn peirianneg gwasanaethau adeiladau, mae angen eich barn arnom i ddatblygu sgiliau a hyfforddiant ar gyfer y sector. Cysylltwch â ni i gael gwybod sut y gallwch gyfrannu ac elwa:

Anfonwch eich manylion atom drwy:

- Ffacs: cwblhewch eich manylion a ffacsio'r dudalen hon i 01908 303989
- Ffôn: 01908 303960
- ebost: enquiries@summitskills.org.uk

Enw: .....

Cwmni: .....

Tref: .....

Ffôn: .....

SummitSkills Vega House, Opal Drive, Fox Milne, Milton Keynes MK15 0DF
T: 01908 303960 • Ff: 01908 303989 • www.summitskills.org.uk • ebost enquiries@summitskills.org.uk • Llinell Gwybodaeth Gyrfaoedd: 08000 688 336